# Eisiau cymorth ariannol wrth ddysgu Cymraeg?

# Mae cymorth ar gael drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

I fod yn gymwys, mae angen i chi:

- ✓ **fod wedi cofrestru ar gwrs Dysgu Cymraeg gydag un o Ddarparwyr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol,**
- ✓ **fod yn 16 mlwydd oed neu hŷn ar 31 Awst 2025,**
- ✓ **fod yn breswylydd sefydlog, cyfreithiol, yn y DU, a hynny ers o leiaf 3 blynedd; neu gwrdd â'r amodau preswylio yn y Fframwaith Cyllido ôl-16 (manylion yn y polisi ar y wefan),**
- ✓ **gadarnhau y basai'n anodd cael mynediad i'ch astudiaethau heb gymorth gan y Gronfa achos fod ystyriaethau ariannol yn rhwystr, e.e. dych chi ar incwm isel.**

**Mae'n bosib gwneud cais i helpu gyda chostau fel:**

| | Disgrifiad | Tystiolaeth sydd angen ei gynnwys gyda'r cais | Uchafswm Dyfarniad |
|---|---|---|---|
| Adnoddau - Cyfarpar / deunyddiau dysgu | Adnoddau hanfodol ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau dosbarth, megis llyfrau, dyfeisiadau digidol, mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer dosbarthiadau rhithiol | Derbynneb(au) yn nodi'r adnodd(au) a'r symiau | £200 mewn blwyddyn academaidd |
| Costau Teithio - Milltiroedd | Gellir hawlio £0.25 y filltir am y siwrnai ddwyffordd i fynychu gwers/sesiwn (hyd at 60 milltir fesul gwers/sesiwn) | Llenwi'r Ffurflen Gostau Teithio gyda dyddiadau'r siwrneiau a manylion y daith | £15 y wers/ sesiwn (£0.25 x 60 milltir) |
| Costau Teithio - Bws / Trên | Cost siwrnai i fynychu gwers/sesiwn | Copïau o'r tocynnau parcio, sy'n cynnwys y dyddiad a'r symiau | £15 y wers/ sesiwn |
| Costau Parcio | Cost Parcio wrth fynychu gwers/sesiwn | Copïau o'r tocynnau parcio, sy'n cynnwys y dyddiad a'r symiau | £5 y wers/ sesiwn |
| Gofal Plant | Gellir hawlio hyd at £5 yr awr am hyd at 3.5 awr am gost gofal plant pob gwers / sesiwn | Derbynneb gan ofalwr cofrestredig AGC (gan nodi eu rhif cofrestredig). Manylion nifer y gwersi/ sesiynau. | £17.50 y plentyn pob gwers/sesiwn (3.5 awr x £5 yr awr) |
| Anableddau | Hyd at £10 y wers/ sesiwn i helpu gyda chostau ychwanegol oherwydd anableddau | Llythyr swyddogol yn darparu tystiolaeth | £10 y wers/ sesiwn |

**Noder nad oes modd gwneud cais am ffi y cwrs**

## Am fwy o fanylion, ewch i'n gwefan:

https://dysgucymraeg.cymru/cymorth/cronfa-ariannol/

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh
Llywodraeth Cymru Welsh Government
CYMRAEG Dysgu Learn